

# TREFNIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL UWCHRADD – BLWYDDYN YSGOL NEWYDD

Annwyl Riant / Ofalwr,

Os bydd eich plentyn yn mynychu'r Ysgol Uwchradd yn y dyfodol agos, fel rhan o'ch penderfyniad o ran eich dewis ysgol a ffeirir, efallai byddwch am roi ystyriaeth i pa Ysgol Uwchradd fydd gan eich plentyn hawl i gael cludiant rhad ac am ddim iddi cyn i chi gadarnhau hyn gydag Adran Derbyniadau'r Ysgol.

**Dim ond os yw eich cyfeiriad cartref fwy na 3 milltir oddi wrth yr Ysgol Uwchradd addas agosaf y bydd CLUDIANT AM DDIM yn cael ei roi.**

Mae cymhwyster ar gyfer cludiant Ysgolion Uwchradd am ddim yn cael ei bennu dim ond trwy fesur pellter o gyfeiriad y cartref i'r Ysgol Uwchradd addas agosaf. Mae'r mesuriad wedi'i asesu gan ddefnyddio 'llywybr cerdded' ar system feddalwedd ONE y Cyngor. Mae'r system yn defnyddio technoleg GPS ac mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r system fapio wedi'i hadnewyddu bob 12 mis, felly mae'n bosibl y bydd canlyniadau asesiadau yn wahanol pan fydd ffyrdd, llwybrau a phwyntiau mynediad diogel newydd wedi'u cynnwys.

Nid yw pa Ysgol lau a fynychodd eich plentyn yn awgrymu unrhyw hawl i gludiant i Ysgol Uwchradd benodol, er gwaethaf unrhyw drefniadau traddodiadol a allai fod wedi bod yn eu lle yn y gorffennol neu hyd yn oed pan fydd brawd neu chwaer wedi mynychu o'r blaen.

Sylwer nad oes unrhyw drefniadau **YSGOL FWYDO** at ddibenion cludiant ysgol.

Bydd rhai achosion, er enghraifft lle mae'r pellter o gyfeiriadau cartref rhwng dwy Ysgol Uwchradd yn dynn iawn, a bydd rhai myfyrwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim i un ysgol a myfyrwyr eraill a fynychodd yr un Ysgol lau neu sy'n byw yn yr un stryd hyd yn oed, yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol arall.

Sylwch nad yw lle wedi'i warantu mewn ysgol gan yr adran Derbyniadau yn awtomatig gyfystyr â darparu cludiant am ddim i'r ysgol. Os ydych yn penderfynu rhoi eich plentyn mewn Ysgol Uwchradd, lle nad honno yw'r ysgol uwchradd addas agosaf at eich cyfeiriad cartref, yna'r rhiant fydd yn gyfrifol am drefnu'r cludiant a'r costau, gan mai dewis y rhiant fydd hyn.

Yr unig eithriad bach i'r rheol yw ar gyfer myfyrwyr sydd am gael eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, lle mai'r Ysgol Uwchradd addas agosaf yw Ysgol Morgan Llwyd neu yn yr un modd, Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff, yw'r ysgol Uwchradd addas agosaf ar sail Ffydd, fodd bynnag, yn y ddau achos, bydd cludiant am ddim i'r ysgol ar gael dim ond pan fo'r disgybl yn byw mwy na 3 milltir o'r ysgol benodol.

Os nad ydych yn siŵr pa ysgol yw'r Ysgol Uwchradd addas agosaf i'ch cyfeiriad cartref, anfonwch e-bost at **school.transport@wrexham.gov.uk**

Cofiwch gynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r disgybl cyn gwneud cais am le mewn ysgol uwchradd.

**Gallwch wneud cais am gludiant trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen hon :**

[www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/school\\_transport/itu\\_prem\\_sec\\_application\\_w.pdf](http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/school_transport/itu_prem_sec_application_w.pdf)

